

## Cylch Gorchwyl Partneriaeth Natur Sir Benfro

### Atodiad 2: Canllawiau Gwaith



Mae'r nodiadau hyn yn darparu canllawiau gwaith i ategu'r Cylch Gorchwyl a gytunwyd gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro.

#### 1) Enw.

Partneriaeth Natur Sir Benfro (PNSB).

#### 2) Nodau.

Cydlynu, hyrwyddo a chofnodi camau gweithredu presennol a newydd er mwyn gwarchod, hyrwyddo a gwella natur yn Sir Benfro, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, dyfroedd y glannau a gwely'r môr o gwmpas arfordir Sir Benfro hyd at 12 milltir o'r lan, gan ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

#### 3) Rôl y Bartneriaeth.

Bydd y Bartneriaeth yn ceisio cyflawni ei nodau trwy:

- a) Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau allweddol ac unigolion sy'n amddiffyn a gwella natur yn Sir Benfro.
- b) Adolygu'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a nodwyd yn y Cynllun Adfer Natur a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a blaenoriaethu rhywogaethau, cynefinoedd, neu leoedd yn Sir Benfro y mae angen paratoi cynlluniau gweithredu ar eu cyfer.
- c) Cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Adfer Natur Lleol ar gyfer y Bartneriaeth trwy sefydlu gweithgorau, grwpiau gweithredu ac ymgynghori gyda grwpiau sy'n bodoli eisoes.
- d) Ymgynghori a chyhoeddi Cynlluniau Adfer Natur Lleol.
- e) Monitro gweithredu camau adfer natur, gwerthuso'r cynnydd o ran gweithredu cynlluniau lleol a'u hadolygu yn ôl yr angen.
- f) Cytuno ac adolygu rhaglen waith flynyddol PNSB a Swyddog y Bartneriaeth.
- g) Cefnogi datblygiad prosiectau a wneir gan sefydliadau unigol sy'n cyfrannu at nodau'r Bartneriaeth.
- h) Nodi cyfleoedd i integreiddio cadwraeth, hyrwyddo a gwella natur i feysydd polisi, cynlluniau a phrosiectau eraill ledled Sir Benfro.

#### 4) Cyfle Cyfartal.

Bydd yr holl unigolion / grwpiau / busnesau sy'n gweithio gyda Phartneriaeth Natur Sir Benfro yn cael eu hasesu ar eu hymwneud â gweithredoedd adfer natur yn unig, heb wahaniaethu o ran rhyw, tuedd rywiol, hil neu farn wleidyddol, grefyddol neu unrhyw farn arall. Bydd y Bartneriaeth yn cydnabod ac yn ymateb i faterion iaith, anabledd, hil, rhyw, oedran a diwylliant.

## 5) Aelodaeth.

- a) Rhaid i sefydliadau sy'n aelodau o Bartneriaeth Natur Sir Benfro anfon cynrychiolydd i o leiaf un cyfarfod y flwyddyn o'r Bartneriaeth neu'r Grŵp Gweithredu; gellir terfynu eu haelodaeth os nad ydynt yn gwneud hynny.
- b) Mae grwpiau gweithredu'n helpu i weithredu cynlluniau'r Bartneriaeth; bydd o leiaf un cynrychiolydd o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yn mynychu eu cyfarfodydd.
- c) Prif rôl partneriaid o fewn Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yw hyrwyddo nodau'r Bartneriaeth yn gyffredinol, ac nid dim ond nodau sefydliadau partner unigol.
- d) Rhaid datgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sydd gan aelod mewn eitem ar yr agenda ar ddechrau'r cyfarfod. Efallai y bydd gofyn iddynt adael y cyfarfod tra bo'r eitem honno'n cael ei thrafod.

## 6) Gweinyddiaeth, Cyllid a Chyflogaeth.

- a) Bydd cadeirydd yn cael ei ethol yn flynyddol o'r Grŵp Llywio.
- b) Bydd y sefydliad lletyol yn gweithredu fel deiliad y gronfa ar gyfer y Bartneriaeth a bydd yn galluogi'r Bartneriaeth i gyflawni ei gwaith drwy gymryd cyfrifoldeb dros weinyddu:
  - i) cronfeydd craidd sy'n gysylltiedig â chostau cyflogi swyddog a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn, megis teithio, postio, cyfieithu ac ati
  - ii) cyflogi staff
  - iii) gweinyddu cronfeydd prosiect penodol fel y bo'n briodol.
- c) Bydd rôl swyddog y Bartneriaeth yn cael ei nodi'n glir yn y swydd ddisgrifiad a'r rhaglen waith fel y cytunwyd gan y Grŵp Llywio Partneriaeth.
- d) Pan fydd partneriaid unigol yn arwain prosiect, byddant yn darparu'r adnoddau addas ar gyfer y prosiect, megis staff, offer, cyllid ac ati a byddant o bosibl yn gweinyddu cronfeydd prosiect-benodol. Byddant yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau ac adrodd arno'n amserol.
- e) Os bydd y Bartneriaeth yn dod i ben a bod cronfeydd neu asedau yn enw'r Bartneriaeth byddant yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliad sy'n aelod o'r Bartneriaeth sy'n parhau â'r prosiect neu'n cael eu dychwelyd i'r arianwyr gwreiddiol.

## 7) Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol

Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn cynnal cyfarfod adolygu blynyddol er mwyn cyflawni'r canlynol:

- a) Adolygu aelodaeth y Bartneriaeth a Grŵp Llywio'r Bartneriaeth er mwyn sicrhau ei fod mor gynrychioliadol â phosibl.
- b) Adolygu datblygiadau'r 12 mis blaenorol.
- c) Cytuno ar y blaenoriaethau sydd i'w cynnwys yn rhaglen waith flynyddol PNSB.
- d) Cyflwyno'r cyfrifon ariannol.

- e) Adolygu neu gadarnhau Cylch Gorchwyl y Bartneriaeth a'r canllawiau gwaith hyn

## 8) Cyfathrebu

- a) Gall y Bartneriaeth wahodd sefydliadau neu unigolion eraill i fynychu cyfarfodydd ar sail ymgynghorol fel sy'n briodol.
- b) Bydd y Bartneriaeth yn ffurfio gweithgorau sy'n cynnwys partneriaid a Grwpiau Gweithredu gyda chynrychiolaeth o PNSB a rhanddeiliaid. Bydd pob is-grŵp yn enwebu cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth ym mhob cyfarfod neu'n flynyddol.
- c) Bydd angen cynrychiolaeth gan o leiaf 5 sefydliad sy'n aelodau o'r Bartneriaeth mewn cyfarfodydd llawn o'r Bartneriaeth, cynrychiolaeth o bob un o'r cyllidwyr craidd yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio PNSB ac o leiaf 3 pherson ym mhob cyfarfod o'r gweithgor neu grwpiau gweithredu eraill.
- d) Cofnodir y cyfarfodydd yn ôl yr angen gan swyddog y Bartneriaeth a bydd drafft yn cael ei ddsbarthu i bawb oedd yn bresennol o fewn 7 diwrnod. Wedi iddynt gael eu cymeradwyo bydd y Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth yn eu dosbarthu i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid ac o bartion eraill sydd â diddordeb yn ôl y gofyn.
- e) Os oes gwybodaeth sensitif ynglŷn â rhywogaethau a warchodir yn cael ei thrafod mewn cyfarfod, dim ond yr aelodau hynny sydd angen gwybod fydd yn derbyn yr wybodaeth a bydd yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

## 9) Gwneud Penderfyniadau / Cyfrifoldebau Partneriaid

Mae'r diagram strwythurol yn dangos y berthynas rhwng gwahanol elfennau PNSB (atodiad 1).

### a) **PNSB: Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid Unigol:**

- Cynorthwyo Grŵp Llywio PNSB wrth bennu blaenoriaethau blynyddol ar gyfer rhaglen waith PNSB.
- Hyrwyddo, gweithredu ac adrodd ar gamau gweithredu sy'n cyfrannu at nodau cynlluniau lleol.
  - (i) Nodi camau gweithredu y mae sefydliadau sy'n aelodau'n gyfrifol amdanynt a lledaenu'r wybodaeth hon o fewn y sefydliad hwnnw.
  - (ii) Nodi prosiectau y gall sefydliadau sy'n aelodau'n eu cyflawni neu gyfrannu atynt er mwyn cwrdd â nodau cynlluniau lleol.
  - (iii) Nodi adnoddau, ariannol neu nwyddau, y gall sefydliadau sy'n aelodau gyfrannu atynt er mwyn cynorthwyo gyda gweinyddiaeth graidd y Bartneriaeth neu brosiectau adfer natur penodol.
  - (iv) Adrodd ar ddatblygiadau'r camau gweithredu trwy swyddog y Bartneriaeth.

### b) **Grŵp Llywio'r PNSB Rolau a Chyfrifoldebau:**

Bydd PNSB yn datganoli rhai cyfrifoldebau i Grŵp Llywio PNSB. Bydd y Grŵp Llywio yn:

- Nodi rhywogaethau, cynefinoedd neu ardaloedd sy'n cael blaenoriaeth yn genedlaethol a lleol a chyhoeddi / adolygu cynlluniau gweithredu.
- Cytuno ar gynnwys cynlluniau gweithredu drafft cyn ymgynghori â'r bartneriaeth yn ehangach a rhanddeiliaid.
- Pennu rhaglen waith PNSB, ei is-grwpiau ac unrhyw staff, gan roi sylw i unrhyw flaenoriaethau a nodwyd gan bartneriaid nad ydynt wedi'u cynrychioli ar Grŵp Llywio PNSB. Monitro'r rhaglenni gwaith hyn.

- Nodi camau gweithredu allan o gynlluniau cyhoeddedig sydd i'w gweithredu gan weithgorau neu Grwpiau Gweithredu eraill.
  - Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio â Phartneriaethau Natur cyfagos a, lle bo'n briodol, helpu i drefnu, rheoli, monitro ac adrodd ar brosiectau fel hyn.
  - Adolygu cynnydd PNSB a rôl y sefydliad lletyol ac is-grwpiau PNSB yn rheolaidd.
- c) Bydd y Bartneriaeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid drwy grwpiau sy'n bodoli eisoes ac yn sefydlu Grwpiau Gweithredu.

***Grwpiau Gweithredu Rolau a Chyfrifoldebau:***

- Cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar unrhyw ddiwygiadau i gynlluniau gweithredu lleol.
- Darparu rhwydwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth adfer natur.
- Cydlynu a gweithredu camau er mwyn diogelu a gwella'r rhywogaethau, cynefinoedd ac ardaloedd hynny sy'n cael blaenoriaeth yn lleol ac yn genedlaethol sydd â chynlluniau wedi'u paratoi ar eu cyfer.
- Darparu adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau i bob partner a rhanddeiliad fel sy'n briodol.

## 9) Adolygu

- a) Bydd y Bartneriaeth yn adolygu'r canllawiau gwaith hyn.